



# Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR) Adroddiad Safle Chwarterol ar gyfer Trawsfynydd

Adroddiad ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill i 30 Mehefin 2015

## Rhagair

Cyhoeddir yr adroddiad hwn fel rhan o ymrwymiad ONR i sicrhau bod gwybodaeth ynghylch gweithgareddau arolygu a rheoleiddio ynglŷn â'r safle uchod ar gael i'r cyhoedd. Dosbarthir adroddiadau'n chwarterol i aelodau ar gyfer Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd (SSG) a hefyd maent ar gael ar y wefan ONR (<http://www.onr.org.uk/llc/>).

Fel arfer mae arolygwyr o ONR yn mynychu cyfarfodydd SSG Trawsfynydd a byddant yn ymateb i unrhyw gwestiynau a godir yno. Dylai unrhyw unigolyn sy'n dymuno gwneud ymholiadau ynghylch materion a gwmpasir gan yr adroddiad hwn gysylltu ag ONR.

## TABL CYNNWYS

1	AROLYGIADAU.....	3
2	MATERION CYFFREDINOL .....	3
3	MATERION ANGHYFFREDINOL.....	4
4	GWEITHGARWCH RHEOLEIDDIOL .....	4
5	NEWYDDION GAN ONR.....	4
6	CYSYLLTIADAU.....	5

## 1 AROLYGIADAU

### 1.1 Dyddiadau arolygu

1. Gwnaeth arolygwyr safle ONR arolygiadau ar y dyddiadau dilynol yn ystod y chwarter:

- 13 – 14 Ebrill 2015
- 12 – 13 Mai 2015
- 18 – 19 Mai 2015
- 1 Mehefin 2015
- 8 - 9 Mehefin 2015

## 2 MATERION CYFFREDINOL

### 2.1 Arolygiadau

2. Ymgwymerir ag arolygiadau fel rhan o'r broses ar gyfer monitro cydymffurfiad ag:

- Yr amodau a atodir gan ONR i'r drwydded safle niwclear a roddwyd o dan Ddeddf Safleoedd Niwclear 1965 (NIA65) (fel y'i diwygiwyd);
- Deddf Ynni 2013;
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 (HSWA74);
- Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005; a
- Rheoliadau a wnaed o dan HSWA74, er enghraifft Rheoliadau Ymbelydriadau Ïoneiddio 1999 (IRR99), Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (MHSWR99) a Rheoliadau Diogelwch Diwydiannau Niwclear 2003 (fel y'i diwygiwyd)

3. Mae'r arolygiadau'n golygu monitro gweithredoedd y trwyddedai ar y safle mewn cysylltiad â digwyddiadau, gweithrediadau, cynhaliaeth, prosiectau, addasiadau, newidiadau i achos diogelwch ac unrhyw faterion eraill a allai effeithio ar ddiogelwch a diogeledd. Mae'n ofynnol i'r trwyddedai wneud a gweithredu trefniadau digonol o dan yr amodau a atodir i'r drwydded er mwyn sicrhau cydymffurfiad â'r gyfraith. Mae arolygiadau'n ceisio barnu digonolrwydd y trefniadau hyn a'r ffordd y'i gweithredir.

4. Yn y cyfnod hwn, fe wnaeth arolygiadau o Drawsfnnydd gwmpasu'r dilynol:

- Digwyddiadau ar y safle (Amod Trwydded (LC) 7)
- Trefniadau Argyfwng (LC 11)
- Addasu neu arbrofi ar offer presennol (LC 22)
- Gwastraff ymbelydrol yn cronni (LC 32)
- Datgomisiynu (LC 35)
- Galluogrwydd sefydliadol (LC 36)

5. Yn gyffredinol, fe wnaeth ONR farnu fod y trefniadau a wnaed ac a weithredwyd gan y safle'n diwallu gofynion yr achosion diogelwch perthnasol a'r safonau diogelwch gofynnol.

6. Fe wnaeth Trawsfynydd gynnal ei ymarfer 'arddangos' Lefel 1 ym mis Mai. Fe wnaeth hon ddarparu arddangosiad digonol o'r trefniadau argyfwng ar gyfer delio ag unrhyw ddigwyddiad neu argyfwng yn codi ar y safle ac ni nodwyd unrhyw bryderon arwyddocaol.

7. Fe wnaeth arolygwyr ONR fynychu'r cyfarfod ynghylch yr adolygiad blynyddol o ddiogelwch, yr amgylchedd a diogelwch ar y safle. Roedd ONR yn fodlon bod y safle'n dal i gael ei weithredu a'i gynnal mewn modd saff a diogel. Cafodd y gydnabyddiaeth

bod y safonau a disgwyliadau yn Nhrawsfynydd wedi gwanhau ei chroesawu gan ONR fel oedd yn wir ynghylch ymrwymiad y safle i weithredu camau priodol i wella.

## 2.2 Gwaith arall

8. Fe wnaeth yr arolygydd safle fynychu cyfarfod rhanddeiliaid safle Trawsfynydd ar 1 Mehefin 2015.

## 3 MATERION ANGHYFFREDINOL

9. Mae'n ofynnol i drwyddedeion gael trefniadau i ymateb i faterion a digwyddiadau anghyffredinol. Mae arolygwyr ONR yn barnu digonolrwydd ymateb y trwyddedai, gan gynnwys camau gweithredu a gymerir i gyflawni unrhyw welliannau sydd eu hangen.
10. Nid oes unrhyw faterion na digwyddiadau arwyddocaol yn ystod y cyfnod adrodd ar safle Trawsfynydd.

## 4 GWEITHGARWCH RHEOLEIDDIOL

### 4.1 Offer y Drwydded a Hysbysiadau Gorfodi

11. Gall ONR gyhoeddi dogfennau ffurfiol er mwyn sicrhau cydymffurfiaid Â gofynion rheoleiddiol. O dan amodau safle niwclear, mae ONR yn cyhoeddi dogfennau rheolaiddiol, sydd naill ai'n caniatáu gweithgaredd neu'n galw am ryw fath o weithredu; fel arfer gelwir y rhain yn 'Offer y Drwydded' (LIs), ond gallant ymddangos ar ffurfiau eraill. Ar ben hynny, gall arolygwyr gyhoeddi Hysbysiadau Gorfodi er mwyn sicrhau gwelliannau i ddiogelwch.
12. Ni chyhoeddwyd unrhyw LIs na Hysbysiadau Gorfodi yn ystod y cyfnod.
13. Mae adroddiadau yn manylu ar benderfyniadau rheoleiddiol ar gael ar y wefan ONR ar <http://www.onr.org.uk/pars/>.

## 5 NEWYDDION GAN ONR

### 5.1 Adroddiad a Cyhfrifon Blynyddol ONR

14. Cyflwynwyd [Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol ONR ar gyfer 2014/15](#) i'r Senedd ar 29 Mehefin. Mae hyn yn cyflwyno'r datblygiadau allweddol yn ystod blwyddyn gyntaf ONR fel Corfforaeth Gyhoeddus gan gynnwys:
  - Cynnydd yn ôl Cynllun Blynyddol ONR;
  - Datganiad blynyddol y Prif Arolygydd Niwclear ar ddiogelwch a diogeledd y diwydiant niwclear;
  - Crynodeb o'n trefniadau llywodraethu; a
  - Manylion ynghylch trefniadau rheoli a sut mae adnoddau wedi'u defnyddio.
15. Gellir gweld cipolwg ar waith ONR fel rheoleidiwr annibynnol o'r diwydiant niwclear ar ganolfan newyddion gwefan ONR (<http://news.onr.org.uk>) ac yn newyddion chwarterol ONR. Mae'r cyhoeddiad ar-lein (<http://www.onr.org.uk/onr-quarterly-report.htm>) yn adrodd ar y themâu a datblygiadau allweddol yn ONR. I weld y newyddion a diweddariadau diweddaraf gan ONR ewch i'r wefan a chofrestru i gael ein e-fwletin (<http://www.onr.org.uk/ebulletin/index.htm>).

## 6 CYSYLLTIADAU

Swyddfa dros Reoli Niwclear  
Redgrave Court  
Merton Road  
Bootle  
Glannau Mersey  
L20 7HS

gwefan: [www.onr.org.uk](http://www.onr.org.uk)  
e-bost: [ONREnquiries@onr.gsi.gov.uk](mailto:ONREnquiries@onr.gsi.gov.uk)

Cyhoeddir y ddogfen hon gan y Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR). I gael rhagor o wybodaeth am ONR, neu i adrodd am anghysondebau neu anghywirdebau yn y cyhoeddiad hwn ewch i <http://www.onr.org.uk/feedback.htm>.

© Swyddfa dros Reoli Niwclear, 2015

Os ydych yn dymuno aildefnyddio'r wybodaeth hon ewch i [www.onr.org.uk/copyright](http://www.onr.org.uk/copyright) i weld manylion.  
Cyhoeddwyd 01/15

*Ar gyfer dogfennau cyhoeddedig, y copi electronig ar y wefan ONR yw'r fersiwn mwyaf cyfredol sydd ar gael i'r cyhoedd ac mae copïo neu argraffu'n golygu bod y ddogfen hon heb ei rheoli.*

**\*\* HEADER = Adroddiad Safle Chwarterol ar gyfer Trawsfynydd – CHW 2 2015  
Cyf TRIM: 2015/249888**

**\*\* FOOTER = Swyddfa dros Reoli Niwclear**

**\*\* Page... of... = Tudalen... o...**